



Dyddiad creu: 24/05/18
Dyddiad cyhoeddi: 26/11/18
Rhif y fersiwn: 1.00

Man Gwasanaeth:	Cynllunio ac Adfywio
Man Gweithio:	Tîm Adnewyddu Trefol/Tîm Cyllid a Chymorth Busnes
Manylion cyswllt:	Rhif ffôn: 01443 866448 / 01443 866220 E-bost: GrantiauGM@caerffili.gov.uk / busnes@caerffili.gov.uk
Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:	Datganiadau o Ddiddordeb a Cheisiadau a dderbyniwyd mewn perthynas â Chynlluniau'r Cyngor ar gyfer Grant Gwella Masnachol, Grantiau Dechrau Busnes a Grant Datblygu Busnes
Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:	Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'r wybodaeth a gyflwynwch wrth holi neu wneud cais am gymorth ariannol gan Gynlluniau'r Cyngor ar gyfer Grant Gwella Masnachol, Grant Dechrau Busnes a Grant Datblygu Busnes

Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

Diben y gwaith prosesu

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn prosesu eich Datganiad o Ddiddordeb neu Gais am Grant gan gynnwys eich hunaniaeth, manylion cyswllt a manylion eich cwmni er mwyn asesu eich cymhwyster am gymorth ariannol o dan Gynlluniau'r Cyngor ar gyfer Grant Gwella Masnachol, Grant Dechrau Busnes a Grant Datblygu Busnes. Bydd angen eich manylion banc hefyd os dyfernir grant.

Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu

Mae rhwymedigaeth tasg gyhoeddus i brosesu eich gwybodaeth a nodir isod:

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Ddeddf, a amlinellir isod:

1(e) mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a wnaed er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolwr;

Pwy fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth?

Manylion y Rheolwr Data a'r Swyddog Diogelu Data

Y Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones

Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data

E-bost: diogeludata@caerffili.gov.uk

Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolwyr Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth.

Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth

Bydd staff o fewn y Tîm Adnewyddu Trefol yn cofrestru'ch Datganiad o Ddiddordeb a Chais Grant am Grant Gwella Masnachol, gan gynnwys eich hunaniaeth, manylion cyswllt, manylion cwmni a lleoliad busnes i gronfa ddata electronig er mwyn asesu eich cymhwyster am gymorth ariannol o dan Gynllun Grant Gwella Masnachol y Cyngor a'ch hysbysu am eu penderfyniad.

Bydd staff o fewn y Tîm Cyllid a Chymorth Busnes yn cofrestru'ch Cais am Grant Dechrau Busnes neu Grant Datblygu Busnes, gan gynnwys eich hunaniaeth, manylion cyswllt, manylion eich cwmni a lleoliad eich busnes i gronfa ddata electronig er mwyn asesu eich cymhwyster am gymorth ariannol o dan gynlluniau'r Cyngor ar gyfer Grantiau Dechrau Busnes a Grantiau Datblygu Busnes.

Bydd copi caled o'r ffurflenni hefyd yn cael ei gadw ar ffeil. Bydd angen eich manylion banc os dyfernir grant.

Manylion am unrhyw rannu o'ch gwybodaeth o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Bydd manylion yr eiddo a dyfynbris a dderbynnir ar gyfer y cais Grant Gwella Masnachol yn cael eu rhannu gyda Syrffewyr Meintiau yn yr Adran Dai.

Bydd adroddiad cryno sy'n cynnwys enw'r ymgeisydd, enw a lleoliad y busnes yn cael ei ysgrifennu ar gyfer pob cais am grant a bydd yn cael ei rannu gyda Chyllid Corfforaethol, Pennaeth Adfywio a Chynllunio ac Aelod Cabinet dros Economi, Isadeiledd, a Chynaliadwyedd a Hyrwyddwr Lles Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd hysbysiad o'r penderfyniad yn cael ei bostio ar Borthol yr Aelodau am gyfnod o dri diwrnod.

Ceisiadau am wybodaeth

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hól, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Manylion am y cyfnod cadw

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Cedwir ceisiadau am grantiau am 10 mlynedd yn dilyn cyhoeddi dyfarniad y grant.

Rhaid i dderbynwyr grantiau hefyd gydymffurfio â/cynorthwyo i'r Awdurdod Rheoli gydymffurfio â gofynion cadw dogfennau o dan unrhyw reolau Cymorth Gwladwriaethol perthnasol. Lle mae prosiectau'n gweithredu o dan gynllun Cymorth Gwladwriaethol yn unol â'r Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol (Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 651/2014) neu Reoliad De Minimis (Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 1407/2013), mae'n rhaid i Dderbynwyr Grantiau gadw cofnodion manwl gyda'r wybodaeth a'r dogfennau ategol angenrheidiol i sicrhau bod yr holl amodau a bennir yn y Rheoliad yn cael eu cyflawni. Rhaid cadw cofnodion o'r fath am 10 mlynedd ar ôl i'r cymorth olaf gael ei gyflwyno o dan y cynllun.

Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwynion)

Eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998

Mae'r ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: [Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun \(SAR\)](#)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn datgan eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

Y Weithdrefn Gwynion

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth, y manylir arno ar frig y ddogfen hon, gan amlinellu eich pryderon.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth am y broses gwyno.

www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn prosesu eich Datganiad o Ddiddordeb neu Gais am Grant gan gynnwys eich hunaniaeth, manylion cyswllt a manylion eich cwmni er mwyn asesu eich cymhwyster am gymorth ariannol o dan Gynlluniau'r Cyngor ar gyfer Grant Gwella Masnachol, Grant Dechrau Busnes a Grant Datblygu Busnes. Bydd angen eich manylion banc hefyd os dyfernir grant.

Prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth fydd staff o fewn y Tîm Adnewyddu Trefol a'r Tîm Cyllid a Chymorth Busnes. Bydd adroddiad cryno sy'n cynnwys enw'r ymgeisydd, enw a lleoliad y busnes yn cael ei rannu gyda Chyllid Corfforaethol, Pennaeth Adfywio a Chynllunio ac Aelod Cabinet dros Economi, Isadeiledd, a Chynaliadwyedd a Hyrwyddwr Lles Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd hysbysiad o'r penderfyniad yn cael ei bostio ar Borthol yr Aelodau am gyfnod o dri diwrnod.

Cedwir ceisiadau am grantiau am 10 mlynedd yn dilyn cyhoeddi dyfarniad y grant.

Rhaid i dderbynwyr grantiau hefyd gydymffurfio â/cynorthwyo i'r Awdurdod Rheoli gydymffurfio â gofynion cadw dogfennau o dan unrhyw reolau Cymorth Gwladwriaethol perthnasol. Lle mae prosiectau'n gweithredu o dan gynllun Cymorth Gwladwriaethol yn unol â'r Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol (Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 651/2014) neu Reoliad De Minimis (Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 1407/2013), mae'n rhaid i Dderbynwyr Grantiau gadw cofnodion manwl gyda'r wybodaeth a'r dogfennau ategol angenrheidiol i sicrhau bod yr holl amodau a bennir yn y Rheoliad yn cael eu cyflawni. Rhaid cadw cofnodion o'r fath am 10 mlynedd ar ôl i'r cymorth olaf gael ei gyflwyno o dan y cynllun.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a sut rydym yn prosesu'ch gwybodaeth, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

[{Hyperddolen i'r Hysbysiad Preifatrwydd Llawn ar ein gwefan}](#)